# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y Y CABINET

## A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD IAU, 15 MEHEFIN 2017 AM 2.00 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J E Burtonshaw | M C Child | W Evans |
| R Francis-Davies | D H Hopkins | A S Lewis |
| J A Raynor | M Thomas | |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C E Lloyd

1. **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â Chôd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd M Thomas fudd personol yng nghofnod rhif 8, “Adborth Craffu Cyn Penderfynu – Canlyniad Ymgynghoriad ar Adolygiad Comisiynu’r Gwasanaethau i Oedolion”;

2) Datganodd y Cynghorydd M Thomas fudd personol yng nghofnod rhif 8, “Adborth Craffu Cyn Penderfynu – Canlyniad Ymgynghoriad ar Adolygiad Comisiynu’r Gwasanaethau i Oedolion”;

3) Datganodd y Cynghorydd J E Burtonshaw fudd personol yng nghofnod rhif 9, “Ymateb i Adroddiad Craffu ar y Strategaeth Trechu Tlodi” ac ni chymerodd ran yn yr eitem;

4) Datganodd y Cynghorwyr J E Burtonshaw, M C Child, W Evans, R Francis-Davies, D H Hopkins, A S Lewis, J A Raynor, R C Stewart ac M Thomas fudd personol yng nghofnod rhif 11, “Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol”.

2. **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod(ydd) a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Y Cabinet a gynhaliwyd ar 20 Ebrill 2017.

3. **ADRODDIAD(AU) ARWEINYDD Y CYNGOR.**

Ni chafwyd unrhyw gyhoeddiadau gan Arweinydd y Cyngor.

4. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

5. **HAWL I HOLI CYNGHORWYR.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

6. **ADBORTH CRAFFU CYN PENDERFYNU - CANLYNIAD YR YMGYNGHORIAD AR ADOLYGIAD COMISIYNU MODEL GWASANAETH A GOFAL CARTREF Y GWASANAETHAU I OEDOLION. (LLAFAR)**

Cyflwynodd y Cynghorydd P M Black adroddiad ar adborth craffu cyn penderfynu.

**PENDERFYNWYD:**

1) Y dylid nodi'r adroddiad.

7. **CANLYNIAD YR YMGYNGHORIAD AR ADOLYGIAD COMISIYNU MODEL GWASANAETH A GOFAL CARTREF Y GWASANAETHAU I OEDOLION.**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Iechyd a Lles adroddiad a oedd yn ceisio cytundeb i fabwysiadu'r Model Gwasanaeth trosgynnol terfynol ar gyfer y Gwasanaethau i Oedolion a rhoi'r argymhellion terfynol a gafwyd o'r Adolygiad Comisiynu Gofal Cartref ar waith.

**PENDERFYNWYD:**

1) Y dylid mabwysiadu'r Model Gwasanaeth trosgynnol terfynol ar gyfer y Gwasanaethau i Oedolion fel y cyfeiriad a ffefrir ar gyfer Gwasanaethau i Oedolion yn Abertawe, yn amodol ar drafodaeth bellach ar gyfeiriad gofal preswyl a gwasanaethau i bobl hŷn yn y dyfodol;

2) Dylai argymhellion yr Adolygiad Comisiynu Gofal Cartref sydd yn y broses o gael eu rhoi ar waith fel 'busnes fel arfer' gael eu nodi;

3) Dylai penderfyniadau ynghylch opsiynau'r broses gaffael o ran yr opsiynau y cytunwyd arnynt ar gyfer gofal cartref gael eu dirprwyo i'r Prif Swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol ar y cyd â'r Aelod Cabinet perthnasol gyda chefnogaeth y Gwasanaethau Masnachol.

8. **YMATEB I'R ADRODDIAD CRAFFU AR Y STRATEGAETH TRECHU TLODI.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gymunedau Cryfach adroddiad a oedd yn amlinellu ymateb i'r argymhellion craffu gan gyflwyno cynllun gweithredu ar gyfer cael cytundeb.

**PENDERFYNWYD:**

1) Y dylid cytuno ar yr ymateb a amlinellwyd yn yr adroddiad a'r cynllun gweithredu cysylltiedig.

9. **YMATEB I'R PANEL YMCHWILIAD PA MOR BAROD YW PLANT I FYND I'R YSGOL**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Iechyd a Lles adroddiad a oedd yn amlinellu ymateb i'r argymhellion craffu ac yn cyflwyno cynllun gweithredu ar gyfer cael cytundeb.

**PENDERFYNWYD:**

1) Y dylid cytuno ar yr ymateb a amlinellwyd yn yr adroddiad a'r cynllun gweithredu cysylltiedig.

10. **PENODIADAU LLYWODRAETHWYR YR AWDURDOD LLEOL.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i'r enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**PENDERFYNWYD:**

1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol fel y'u hargymellwyd gan Banel Penodi Llywodraethwyr yr ALl:

| | | |
|---|---|---|
| 1) | Ysgol Gynradd Cwmrhydyceirw | Mrs Gaynor Ellis |
| 2) | Ysgol Gynradd y Gors | Mrs Ann Morgan |
| 3) | Ysgol Gynradd Grange | Mrs Bronwen Williams |
| 4) | Ysgol Gynradd Mayals | Mrs Margaret Collins |
| 5) | Ysgol Gynradd Townhill | Mrs Joanne Martin |
| 6) | Ysgol Gyfun Gatholig yr Esgob Vaughan | Mr Samuel Pritchard |
| 7) | YGG Llwynderw | Mr Adam Gilbert |
| 8) | Ysgol Gyfun Gŵyr | Y Parch. Ian Morris |
| 9) | Ysgol Pen-y-Bryn | Mrs Jeanette Simpson |
| 10) | Ysgol Crug Glas | Y Cyng. Fiona Gordon |

11. **ARDRETHI BUSNES - CYNLLUN CYMORTH ARDRETHI DROS DRO (CYMRU)**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau a Gweithrediadau Busnes adroddiad a oedd yn cyflwyno gwybodaeth i ystyried mabwysiadu Cynllun Cymorth Ardrethi Busnes y Stryd Fawr newydd dros dro, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol.

**PENDERFYNWYD:**

1) Y dylid nodi manylion y cynllun a nodwyd yn yr adroddiad;

2) Y dylai'r cynllun cymorth ardrethi a'r broses ymgeisio a nodwyd yn yr adroddiad gael eu mabwysiadu ar gyfer 2017-2018.

12. **GWAHARDD Y CYHOEDD: -**

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) f/busnes canlynol.

**(SESIWN GAEËDIG)**

13. **SGWÂR DIGIDOL, PENODI GWEITHREDWR ARENA**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Ddiwylliant, Twristiaeth a Phrosiectau Mawr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer penodi gweithredwr ar gyfer yr Arena Ddigidol ac yna benodi contractwr ar gyfer Cam 1 Sgwâr Digidol Abertawe Ganolog.

**PENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo'r argymhelliad/argymhellion fel y nodwyd yn yr adroddiad.

14. **CONTRACT I DDARPARU GWASANAETHAU TRIN GWASTRAFF BWYD HIR DYMOR AR GYFER HWB DE-ORLLEWIN CYMRU (YR HWB).**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau’r Amgylchedd adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth dyfarnu contract i gaffael cyfleuster trin gwastraff bwyd rhanbarthol tymor hir.

**PENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo’r argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad.

15. **ADRODDIAD DYFARNU CONTRACT - CONTRACT I GYFLENWI HYD AT 36 O GERBYDAU CASGLU SBWRIEL**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Amgylchedd adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i ddyfarnu contract ar gyfer hyd at 36 o gerbydau casglu sbwriel y mae cyfanswm amcangyfrifedig y contract yn dod dan Rheol Gweithdrefn Contract Band D.

**PENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo'r argymhelliad/argymhellion fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.33 pm

**CADEIRYDD**

**Cyhoeddedig:** 16 Mehefin 2017